



NHS  
WALES  
GIG  
CYMRU



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr**

## **Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**

### **Penodi Aelod Annibynnol (Undeb Llafur)**

**Dyddiad cau: 3 Chwefror 2017**



**The Commissioner for  
Public Appointments**

## **Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**

<b>Cynnwys</b>	<b>Tudalen</b>
<b>Gwneud Cais</b>	<b>3</b>
<b>Atodiad A : Rôl yr Aelod Annibynnol</b>	<b>6</b>
<b>Atodiad B : Rôl a chyfrifoldebau Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan</b>	<b>10</b>
<b>Atodiad C : Y broses ddethol</b>	<b>12</b>
<b>Atodiad D : Amrywiaeth</b>	<b>14</b>

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

### Gwneud cais

Diolch am fynegi diddordeb yn y penodiad Aelod Annibynnol (Undeb Llafur) o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Bydd yn ofynnol i'r Aelod Annibynnol newydd chwarae rôl weithredol lawn a gweithgar yn y ffordd y caiff y Bwrdd Iechyd ei lywodraethu. Mae'r Atodiadau sydd ynghlwm yn rhoi manylion rôl yr Aelod Annibynnol, manyleb y person, rôl a chyfrifoldebau Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a'r broses ddethol.

I wneud cais, ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru yma [www.llyw.cymru/penodiadaucyhoeddus/](http://www.llyw.cymru/penodiadaucyhoeddus/).

I wneud cais am y rôl hon, cliciwch ar swydd wag Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ac yna cliciwch y botwm 'Gwneud cais' ar waelod y dudalen ar yr ochr chwith. Y tro cyntaf ichi wneud cais am swydd, bydd angen ichi lenwi ffurflen gofrestru ar gyfer system ceisiadau ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith sydd angen ichi gofrestru, a thrwy wneud hynny byddwch yn gallu dilyn hynt eich cais, ac unrhyw geisiadau eraill y byddwch yn eu gwneud trwy eich cyfrif.

Byddwch yn gallu cael mynediad at y ffurflen gais yn syth ar ôl ichi gofrestru. I wneud cais, bydd angen ichi gyflwyno ffurflen gais a **dwy** ddogfen atodol. **Datganiad personol** yn darparu atebion i'r cwestiynau isod, yn rhoi tystiolaeth o'r cymwyseddau, yw'r ddogfen atodol gyntaf. Ni ddylai'r ddogfen hon fod yn fwy na dwy dudalen A4. Gallai eich cais gael ei wrthod os byddwch yn rhagori ar y terfyn hwn. **CV** llawn, cyfredol yw'r ail ddogfen y bydd rhaid ichi ei chyflwyno. Dylech lanlwytho'r ddwy ddogfen i'r adran 'Rhesymau dros ymgeisio' o'r ffurflen gais ar-lein.

### Datganiad Personol

Mae cyfle ichi ddangos yn eich datganiad personol sut yr ydych yn bodloni pob un o'r meini prawf fel y'u hamlinellir yn y cwestiynau isod. Chi fydd yn penderfynu sut y byddwch am gyflwyno'r wybodaeth hon. Fodd bynnag, dylech geisio darparu enghreifftiau manwl sy'n dangos sut y mae eich gwybodaeth a'ch profiadau yn cydfynd â phob maen prawf, ac sy'n disgrifio eich rôl chi wrth gyflawni canlyniad penodol. Bydd hefyd o fudd i'r panel dethol os gallwch egluro pa dystiolaeth benodol sy'n berthnasol i ba faen prawf. Mae darparu paragraffau ar wahân ar gyfer pob maen prawf yn arfer cyffredin.

### Cwestiynau i'w hateb yn eich datganiad personol fel rhan o'ch cais.

Rhowch grynodedeb o sut yr ydych yn bodloni meini prawf penodol y rôl.

Disgrifiwch eich dealltwriaeth o faterion a blaenoriaethau iechyd yng Nghymru a sut y byddai'r rhain yn gymwys ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Rhowch enghraifft neu enghreifftiau penodol o sefyllfa pan fu'n rhaid ichi ddadansoddi gwybodaeth gymhleth a chyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau cadarn.

Disgrifiwch adeg pan wnaethoch alw person ar lefel uwch i gyfrif gan barhau i gynnal perthynas adeiladol ag ef/hi.

## **Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**

Rhowch dystiolaeth o'ch sgiliau cyfathrebu ac ymgysylltu. Rhowch enghraifft benodol yn amlinellu eich dull o gyfathrebu ac ymgysylltu â phobl ar bob lefel, y sgiliau a'r dulliau a ddefnyddiwyd gennych a'r canlyniad.

Disgrifiwch enghraifft neu enghreifftiau lle rydych chi wedi cynnwys amrywiol dimau, partneriaid a rhanddeiliaid i wella gwasanaeth neu broses. Amlinellwch eich cyfraniad personol a'r canlyniad.

### **CV**

Sicrhewch fod eich CV yn cynnwys manylion cryno eich rôl bresennol neu ddiweddaraf, a'r dyddiadau yr oeddech yn ymgymryd â'r rôl hon. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol presennol neu yn y gorffennol.

### **Cynllun Gwarantu Cyfweiliad**

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu Cynllun Gwarantu Cyfweiliad ar gyfer pobl anabl. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diffinio person anabl fel person sydd â nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar ei allu i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd. O dan y Cynllun Gwarantu Cyfweiliad, bydd ymgeisydd anabl yn cael ei ddewis ar gyfer cyfweiliad os yw'n bodloni'r meini prawf hanfodol gofynnol ar gyfer y swydd.

### **Amserlen fras**

Dyddiad cau:	3 Chwefror 2017
Rhestr fer wedi'i thynnu:	w/d 13 Chwefror 2017
Cynnal cyfweiliadau:	w/d 27 Chwefror 2017
Dyddiad dechrau:	Cyn gynted ag y gellir penodi.

### **Ffeithiau allweddol am y swydd**

Lleoliad:	Mae pencadlys y Bwrdd Iechyd yn Ysbyty Sant Cadog, Caerllion, a chynhelir y rhan fwyaf o gyfarfodydd y Bwrdd a chyfarfodydd Pwyllgor yno. Disgwylir i aelodau'r Bwrdd hefyd fynd i ddigwyddiadau a gweithgareddau ym mhob cwr o ardal y Bwrdd Iechyd.
Tâl cydnabyddiaeth:	Nid yw'r Aelod Annibynnol (Undeb Llafur) yn derbyn tâl ond mae'n cael costau amser cyfleuster am ymgymryd â'r rôl.
Ymrwymiad Amser:	Mae rôl yr Aelod Annibynnol yn seiliedig ar ymrwymiad tybiedig o bedwar (4) diwrnod y mis o leiaf, ond bydd hyn yn amodol ar ofynion y sefydliad ac mae'n aml yn rhagori ar y gofyniad sylfaenol.

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

### Cysylltiadau:

I gael rhagor o wybodaeth am y broses ddethol, cysylltwch â:

Y Ganolfan Cydwasanaethau Corfforaethol

Ffôn: 029 2082 5454

E-bost: [sharedservicehelpdesk@wales.gsi.gov.uk](mailto:sharedservicehelpdesk@wales.gsi.gov.uk)

I gael rhagor o wybodaeth am rôl yr Aelod Annibynnol, cysylltwch â Richard Bevan, Ysgrifennydd y Bwrdd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Ffôn: 01633 435959. E-bost: [richard.bevan@wales.nhs.uk](mailto:richard.bevan@wales.nhs.uk)

I gael rhagor o wybodaeth am Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, gallwch fynd i wefan y Bwrdd Iechyd: <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/866/hafan>

Os oes angen rhagor o gymorth arnoch chi i wneud cais am y rôl hon, cysylltwch â Desg Gymorth Canolfan Cydwasanaethau Corfforaethol Llywodraeth Cymru ar 029 2082 5454 neu drwy anfon e-bost i [SharedServiceHelpdesk@wales.gsi.gov.uk](mailto:SharedServiceHelpdesk@wales.gsi.gov.uk)

I gael rhagor o wybodaeth am Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, ewch i [www.llyw.cymru/penodiadaucyhoeddus](http://www.llyw.cymru/penodiadaucyhoeddus).

### Ymateb

Mae Llywodraeth Cymru am glywed eich barn am y broses o wneud penodiadau cyhoeddus. Os byddwch yn gwneud cais, byddai Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi pe gallech roi ychydig funudau i ymateb i'r arolwg hwn:

<http://publicappointmentscommissioner.independent.gov.uk/candidate-survey>

Bydd eich ymateb yn cael ei wneud yn ddienw a bydd yn dylanwadu ar waith parhaus Llywodraeth Cymru i wella'r broses penodiadau cyhoeddus.

## **Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**

### **Rôl yr Aelod Annibynnol**

#### **Disgrifiad o'r rôl a manyleb y person**

Mae hwn yn gyfle gwyb i ddefnyddio'ch sgiliau a'ch profiad i wneud gwahaniaeth i fywydau pobl a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

#### **Rôl a chyfrifoldebau**

Bydd Aelodau Annibynnol, ymysg pethau eraill, yn:-

- Chwarae rhan lawn a gweithgar yn y ffordd y caiff y Bwrdd Iechyd ei reoli, mewn modd clinigol a chorfforaethol. Byddant yn cymryd rhan weithredol mewn trafodaethau, gan gynnig barn a herio a chefnogi'r Bwrdd ar faterion allweddol
- Cyfrannu at waith y Bwrdd yn seiliedig ar eich annibyniaeth, eich profiad yn y gorffennol a'ch gwybodaeth, a'ch gallu i gymryd cam yn ôl o'r gwaith rheoli gweithredol o ddydd i ddydd
- Cyfrannu at benderfyniadau corfforaethol a'u derbyn, er mwyn sicrhau bod y Bwrdd yn gwneud penderfyniadau cydgysylltiedig, cadarn a thryloyw
- Bydd disgwyl iddynt, ymhen amser, ddod i ddeall y sefydliad yn llawn drwy gymryd rhan weithredol, er mwyn galluogi'r sefydliad i berfformio'n effeithiol.
- Gweithio'n agos gyda chyrrff cyhoeddus, preifat a gwirfoddol eraill a sicrhau bod safbwyntiau cleifion, gofalwyr a theuluoedd yn cael eu cynnwys yn llawn er mwyn helpu i siapio, datblygu a gwella gwasanaethau
- Dadansoddi ac adolygu gwybodaeth gymhleth mewn modd beirniadol a chyfrannu at benderfyniadau cadarn
- Cyfrannu at brosesau llywodraethu ac ariannu'r Bwrdd Iechyd, gan sicrhau ei fod yn agored ac yn onest yn ei waith drwy gyfrannu'n llawn at y broses o wneud penderfyniadau

#### **Manyleb y Person**

Bydd pob Aelod Annibynnol yn dangos y rhinweddau canlynol:-

#### **Gwybodaeth a Phrofiad**

- Dealltwriaeth o faterion a blaenoriaethau iechyd yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a'r gallu i ddeall rôl a gwaith y Bwrdd
- Y gallu i ddwyn yr aelodau gweithredol i gyfrif am berfformiad, gan gynnal perthynas adeiladol ar yr un pryd
- Y gallu i ddarparu safbwynt gwybodus, diduedd a chytbwys ar amrywiaeth o faterion sensitif a chymhleth
- Dealltwriaeth eang o'r gofynion llywodraethu

#### **Priodoleddau Personol a Sgiliau**

Mae gan y Bwrdd Iechyd set o werthoedd ac ymddygiadau craidd a rennir – sef yr hyn y mae'r sefydliad yn ei gynrychioli. Bydd angen ichi allu dangos y canlynol:

- Sgiliau cyfathrebu da a'r gallu i ymgysylltu â chyflogeion a chynrychiolwyr cyflogeion ar bob lefel yn y Bwrdd Iechyd

## **Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**

- Y gallu i weithio fel rhan o dîm ac mewn partneriaeth â sefydliadau allweddol eraill
- Y gallu i gynnwys rhanddeiliaid a gweithio gyda nhw i helpu i siapio, datblygu a gwella gwasanaethau
- Y gallu i ddadansoddi gwybodaeth gymhleth, a'i hadolygu'n feirniadol

I gael eich ystyried ar gyfer y rôl, rhaid ichi allu dangos bod gennych y rhinweddau, y sgiliau a'r profiad i fodloni pob un o feini prawf hanfodol y penodiad.

### **Meini Prawf Penodol i'r Rôl**

Mae'r meini prawf penodol ar gyfer y rôl hon fel a ganlyn:-

Rhaid i chi fod yn aelod o undeb llafur cydnabyddedig sy'n gysylltiedig â materion cyflogaeth ac yn gyflogai Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar hyn o bryd.

Bydd angen ichi ddangos:-

- Gwybodaeth am faterion yn gysylltiedig â'r gweithlu yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, a dealltwriaeth o'r meysydd hynny.
- Eich bod yn gallu cymhwyso eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth ar lefel bwrdd strategol

Mae Ysgrifennydd y Bwrdd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn hapus i drafod y meini prawf penodol i'r swydd gydag ymgeiswyr ar gais. Ewch i dudalen 5 i gael manylion cyswllt.

### **Yr Iaith Gymraeg**

Mae sgiliau iaith Gymraeg yn ddymunol ond nid yn ofynnol ar gyfer y penodiad hwn. Fodd bynnag, disgwylir i bob ymgeisydd ddangos empathi tuag at yr iaith, a dangos arweiniad i gryfhau'r ddarpariaeth gwasanaethau dwyieithog yn y GIG yng Nghymru.

### **Ymrwymiad amser**

Mae rôl Aelod Annibynnol o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn seiliedig ar ymrwymiad tybiedig o bedwar (4) diwrnod y mis o leiaf, ond bydd hyn yn amodol ar ofynion y sefydliad ac mae'n aml yn rhagori ar y gofyniad sylfaenol.

### **Tâl cydnabyddiaeth**

Nid oes tâl am ymgymryd â rôl Aelod Annibynnol (Undeb Llafur). Bydd yr Aelod Annibynnol (Undeb Llafur) yn derbyn costau amser cyfleuster am ymgymryd â'r rôl.

### **Treuliau**

Bydd hawl gennych gael ad-daliad, os yw'n briodol, yn erbyn derbynebau ar gyfer costau teithio a chynhaliaeth a fydd yn codi wrth wneud gwaith i'r Bwrdd Iechyd.

## **Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**

Rhaid hawlio treuliau o fewn tri mis o fynd i gostau, oni bai bod amgylchiadau eithriadol.

Gellid talu costau gofal plant ac unigolion dibynnol eraill, os cyflwynir derbynebau, yng nghyd-destun costau eraill a fydd yn codi wrth wneud gwaith i'r Bwrdd Iechyd.

### **Hyd y penodiad**

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon fydd yn penderfynu ar hyd y penodiad, a fydd am gyfnod o hyd at bedair (4) mlynedd i ddechrau. Fodd bynnag, mae hyn ar yr amod bod yr Aelod Annibynnol yn gymwys gydol y cyfnod hwn. Gall aelodau o'r bwrdd sefyll am gyfnod o wyth (8) mlynedd ar y mwyaf.

### **Atebolrwydd**

Mae'r aelodau'n cael eu penodi gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon ac maent yn atebol i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon drwy'r Cadeirydd am ymgymryd â'u dyletswyddau ac am eu perfformiad.

### **Cymorth ar gyfer Aelodau Anabl**

Lle bo hynny'n briodol, caiff pob addasiad rhesymol ei wneud i alluogi'r aelodau i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol.

### **Pwy sy'n cael gwneud cais**

Caiff unigolyn ei ddiarddel o'r penodiad os bydd ef/hi:

- a. wedi ei gael/chael yn euog yn y 5 mlynedd ddiwethaf yn y DU, Ynysydd y Sianel neu Ynys Manaw o unrhyw drosedd sydd wedi arwain at ddedfryd o garchar (wedi'i gohirio neu beidio) am gyfnod o 3 mis neu fwy
- b. wedi ei wneud/gwneud yn fethdalwr neu wedi gwneud cyfmod neu drefniant gyda'i greddydwyr/chredydwy
- c. wedi cael ei ddiswyddo/diswyddo, ac eithrio pan fo swydd wedi'i dileu neu pan nad adnewyddwyd contract tymor penodol, o unrhyw swydd gyflogedig yn un o gyrff y gwasanaeth iechyd
- d. yn berson y terfynwyd ei gyfnod fel cadeirydd, aelod neu gyfarwyddwr un o gyrff y gwasanaeth iechyd am nad yw ei benodiad ef/hi er budd y gwasanaeth iechyd, am iddo/iddi beidio â mynychu cyfarfodydd neu am iddo/iddi beidio â datgelu buddiant ariannol
- e. yn cael ei gyflogi/chyflogi gan y gwasanaeth iechyd, ar wahân i rôl yr Aelod Annibynnol (Undeb Llafur), y mae cyflogaeth gan y GIG yn un o'r amodau penodi ar ei chyfer.

Yn amodol ar yr eithriad a nodir yn (e), mae'n bolisi gan Lywodraeth Cymru bod pob un a gyflogwyd yn ddiweddar gan Fwrdd Iechyd Lleol neu Ymddiriedolaeth y GIG yn cael seibiant heb ymwneud â'r GIG cyn cael ei ystyried ar gyfer Penodiad Cyhoeddus y GIG.

Dylech ddatgan unrhyw wybodaeth arall a allai effeithio ar eich cais ar gyfer eich penodi yn yr adran dan Gwrthdaro Buddiannau o'r ffurflen gais.

Dylai'r ymgeiswyr fod yn unigolion sy'n ymddwyn mewn modd a fydd yn ennyn hyder



## **Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**

y cyhoedd ar bob adeg.

Yn benodol, mae'n ofynnol i'r ymgeiswyr ddatgan a ydynt yn gwybod am unrhyw beth, yn eu bywydau preifat neu broffesiynol, a allai achosi embaras iddynt hwy neu i Lywodraeth Cymru petai'n dod i'r amlwg ar ôl eu penodi.

Dylai ymgeiswyr gofio hefyd fod aelodau Byrddau Iechyd Lleol wedi'u hanghymhwyso rhag bod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, o dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015.

### **Gwrthdaro Buddiannau**

Dylech nodi'n arbennig bod gofyn ichi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai fod, neu y gellid dehongli eu bod, yn gwrthdaro â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau fel Aelod Annibynnol o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, gan gynnwys buddiannau busnes neu swyddi o awdurdod y tu allan i'ch rôl ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Ar ôl penodi, bydd rhaid i Aelodau Annibynnol ddatgan y buddiannau hyn a cheisio cadarnhad gan Gadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan nad oes unrhyw wrthdaro wedi codi a'i bod yn briodol iddynt barhau'n aelod o'r bwrdd.

### **Safonau mewn bywyd cyhoeddus**

Bydd disgwyl i Aelodau Annibynnol lyngu at y safonau llywodraethu da a osodwyd ar gyfer y GIG yng Nghymru, sy'n seiliedig ar Egwyddorion Llywodraethu sy'n Canolbwyntio ar y Dinesydd, Llywodraeth Cymru ac sy'n cynnwys "Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus" Nolan.

## **Rôl a chyfrifoldebau Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**

### **Cefndir**

Mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan gyllideb o ychydig dros £1 biliwn. Cafodd ei sefydlu yn 2009 fel rhan integredig o'r Bwrdd Iechyd Lleol sy'n gyfrifol am gynllunio a chyflenwi ystod eang o wasanaethau sylfaenol, cymunedol ac eilaidd i bobl Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gyfrifol hefyd am weithio gyda phartneriaid i hyrwyddo a gwella iechyd a llesiant y bobl leol. Gan gynnwys yr amcangyfrif o gleifion sy'n byw yn Ne Powys ac ardaloedd eraill sy'n derbyn gwasanaethau aciwt gan y Bwrdd Iechyd, mae bron i 600,000 o bobl yn cael eu gwasanaethu. Mae'r Bwrdd Iechyd Prifysgol yn comisiynu amrywiaeth eang o wasanaethau sy'n cael eu sicrhau trwy gcontractau a threfniadau contract â darparwyr o Gymru, Lloegr ac o'r Trydydd Sector.

Mae tri ysbyty aciwt yn rhan o'r Bwrdd Iechyd Prifysgol, ac maent yn darparu amrywiaeth o wasanaethau i gleifion preswyl ac allanol: Ysbyty Brenhinol Gwent, Casnewydd; Ysbyty Ystrad Fawr, Ystrad Mynach; ac Ysbyty Nevill Hall, Y Fenni yw'r rhain. Mae yna hefyd ysbytai ac amrywiol gyfleusterau eraill wedi'u lleoli ar draws ardal y Bwrdd Iechyd.

Mae'r Bwrdd Iechyd Prifysgol yn cyflogi 400 o Ymarferwyr Cyffredinol a Meddygon Teulu Cyflogedig sy'n darparu gwasanaethau meddygol cyffredinol o 88 o Bractisau Cyffredinol. Mae 214 o nyrsys practis, 145 o weithwyr cymorth gofal iechyd ac amryw o staff gweinyddol, sy'n cynnwys rheolwyr practisau, derbynyddion, ysgrifenyddion a swyddogion TG, yn eu cefnogi. Mae tua 375 o Ymarferwyr Deintyddol Cyffredinol yn darparu gwasanaethau deintyddol cyffredinol o 79 o bractisau. Mae yna 129 o Fferyllfeydd Cymunedol a 69 o leoliadau Optometreg ar draws y Bwrdd Iechyd Prifysgol.

Mae'r Bwrdd Iechyd Prifysgol yn cynnig ystod gynyddol o wasanaethau yn y gymuned yng nghartrefi cleifion, trwy ysbytai cymunedol a thrwy canolfannau iechyd a chlinigau. Mae yna rai ysbytai cymunedol llai eu maint, a chanolfannau iechyd a gofal cymdeithasol integredig, a chanolfannau iechyd sy'n darparu gwasanaethau clinigol pwysig i'n dinasyddion yn nes at eu cartrefi.

Mae'r Bwrdd Iechyd Prifysgol hefyd yn darparu gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anabledau Dysgu cynhwysfawr mewn ysbytai ac yn y gymuned i bobl Gwent a De Powys.

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

### Rôl y Bwrdd

Mae'r tair rôl allweddol y mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn rhoi arweiniad trwyddynt yn ei sefydliad fel a ganlyn:-

- Lluo strategaeth
- Sicrhau atebolrwydd trwy ddwyn y sefydliad i gyfrif am gyflawni'r strategaeth a thrwy geisio sicrhwydd bod systemau rheoli yn gadarn ac yn ddibynadwy
- Siapio diwylliant cadarnhaol ar gyfer y Bwrdd a'r sefydliad

### Mae rôl aelod y Bwrdd yn canolbwyntio ar bedwar maes allweddol:-

- **Strategaeth** – cyfrannu at ddatblygiad strategol a gwneud penderfyniadau
- **Perfformiad** – sicrhau bod trefniadau rheoli effeithiol yn ogystal â thîm effeithiol yn gweithredu ar lefel uchaf y sefydliad. Helpu i egluro pa benderfyniadau sydd i'w gwneud gan y Bwrdd ac yna sicrhau bod y gweddill wedi'u dirprwyo'n glir a dwyn y rheolwyr i gyfrif am eu perfformiad o ran bodloni nodau ac amcanion y cytunwyd arnynt trwy herio a chraffu'n bwrpasol, a monitro'r gwaith o adrodd am berfformiad
- **Risg** – sicrhau bod gwybodaeth ariannol yn gywir, a bod rheolaethau ariannol a systemau rheoli risg a sicrhwydd yn gadarn a bod modd eu hamddiffyn
- **Ymddygiad** – cynnal y safonau moesegol uchaf o ran uniondeb a chywirdeb a chydymffurfio'n llawn â'r Cod Ymddygiad. Dylai aelodau'r bwrdd ddangos trwy eu hymddygiad eu bod yn canolbwyntio ar eu cyfrifoldebau tuag at ddinasyddion, y sefydliad a'i randdeiliaid

## **Y broses ddethol**

Bydd y panel cyfweld yn asesu eich ffurflen gais, eich CV a'r cwestiynau a atebwyd gennych fel rhan o'ch cais i benderfynu a ydych yn bodloni'r meini prawf ar gyfer y rôl, ac a fyddwch yn cael eich gwahodd i gyfweiliad. Bydd y panel yn dibynnu ar yr wybodaeth y byddwch yn ei darparu yn eich CV a'r cwestiynau a atebwyd gennych fel rhan o'ch cais i asesu a oes gennych y sgiliau a'r profiad angenrheidiol. Dylech sicrhau bod y dystiolaeth yr ydych yn ei darparu yn bodloni'r holl feini prawf angenrheidiol.

Bydd y panel dethol yn cynnwys David Jenkins OBE, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, cynrychiolydd o Gyfarwyddiaeth Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru ac Aelod Panel Annibynnol.

Gallai eich cais gael ei roi ar "restr hir", yn amodol ar nifer y ceisiadau a ddaw i law, cyn iddo gael ei anfon ymlaen at y panel a fydd yn tynnu'r rhestr fer i'w ystyried. Dylech gofio, yn yr achos hwn, efallai na fydd eich cais yn cael ei ystyried yn llawn gan y panel cyfan.

Rydym yn rhagweld yn ystod yr wythnos yn dechrau xx xxxxx 2017 bydd y panel wedi penderfynu pwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweiliad a fydd yn cael ei gynnal yn ystod yr wythnos yn dechrau xx xxxxxx 2017.

Yr ymgeiswyr cryfaf yn unig a fydd yn cael gwahoddiad i gyfweiliad gan y panel; y rheini y mae'r panel yn teimlo sydd wedi dangos eu bod yn bodloni'r meini prawf orau. Fodd bynnag, os gwnaethoch gais o dan y cynllun gwarantu cyfweiliad ac os ydych yn bodloni'r meini prawf gofynnol ar gyfer y rôl, byddwch chithau hefyd yn cael eich gwahodd i gyfweiliad.

Os byddwch yn cael eich gwahodd i gyfweiliad ac na fydd dyddiad y cyfweiliad eisoes wedi'i ddarparu yn y pecyn gwybodaeth, byddwn yn ceisio rhoi cymaint o rybudd â phosibl ichi am ddyddiad y cyfweiliad. Os na fyddwch yn gallu dod i'r cyfweiliad ar y dyddiad a drefnwyd, byddwn yn gwneud ein gorau i ail-drefnu. Fodd bynnag, efallai na fydd hyn yn bosibl oherwydd y cyfyngiadau amser yn yr amserlen ar gyfer penodi, a bydd yn dibynnu hefyd ar argaeledd y panel dewis.

Byddwch yn cael neges e-bost o'r system Penodi i'ch hysbysu a fyddwch yn cael eich gwahodd i gyfweiliad ai peidio. Bwriedir cynnal y cyfweiliadau ym Mhencadlys Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan, Ysbyty Sant Cadog, Lodge Road, Caerllion, Casnewydd NP18 3XQ.

Os byddwch yn cael eich gwahodd i gyfweiliad, bydd y panel yn eich holi am eich sgiliau a'ch profiad, gan ofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn bodloni'r meini prawf a bennwyd ar gyfer y rôl.

Efallai y bydd y broses benodi a'r cyfweiliad yn cynnwys asesiadau pellach o addasrwydd ar gyfer y rôl. Bydd y rhai sy'n cael eu gwahodd am gyfweiliad yn cael rhagor o wybodaeth ymlaen llaw.

## **Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**

Bydd ymgeiswyr sy'n 'benodadwy' yn ôl y panel yn cael eu hargymell i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Gallai Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon ddewis cyfarfod ag ymgeiswyr penodadwy cyn gwneud penderfyniad. Os bydd yn dewis gwneud hynny, bydd yn cyfarfod â phob ymgeisydd ym mhresenoldeb cadeirydd y panel neu ei gynrychiolydd enwebedig. Bydd yna fwlch amser rhwng cynnal y cyfweiliad a gwneud y penderfyniad terfynol. Bydd ymgeiswyr sydd wedi cael eu gwahodd i gyfweiliad yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf.

Os byddwch yn llwyddiannus, byddwch yn cael llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon yn eich penodi yn Aelod Annibynnol o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Bydd y llythyr hwnnw yn cadarnhau'r telerau penodi.

Os na fyddwch yn llwyddiannus yn y cyfweiliad, bydd Llywodraeth Cymru yn eich hysbysu. Rydym yn gwerthfawrogi ei bod yn cymryd llawer o amser ac ymdrech i wneud cais am rolau a bod adborth yn rhan werthfawr o'r broses. O ganlyniad, bydd y llythyr yn cynnwys manylion pwy y gallwch ofyn iddynt am adborth ar eich cyfweiliad a'ch cais, os ydych yn dymuno gwneud hynny.

### **Ymholiadau**

Os oes gennych gwestiynau cysylltwch â Desg Gymorth y Cydwasanaethau Corfforaethol ar 029 2082 5454 neu drwy anfon e-bost i [sharedservicehelpdesk@wales.gsi.gov.uk](mailto:sharedservicehelpdesk@wales.gsi.gov.uk).

### **Rheoleiddio gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus**

Mae'r Comisiynydd yn rheoleiddio ac yn monitro penodiadau i gyrrff cyhoeddus er mwyn sicrhau bod gweithdrefnau yn deg, agored a thryloyw ac yn cael eu gwneud ar sail teilyngdod. Mae rhagor o wybodaeth am rôl y Comisiynydd a'r Cod Ymarfer ar gael o <http://publicappointmentscommissioner.independent.gov.uk>.

### **Os nad ydych yn hollol fodlon**

Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio prosesu'r holl geisiadau mor gyflym â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os ydych am gwyno am y ffordd y cafodd eich cais ei drin, cysylltwch â Desg Gymorth y Cydwasanaethau Corfforaethol ar 029 2082 5454 neu drwy anfon e-bost i [sharedservicehelpdesk@wales.gsi.gov.uk](mailto:sharedservicehelpdesk@wales.gsi.gov.uk)

Os ydych yn parhau'n bryderus ar ôl derbyn ymateb cynhwysfawr gan Lywodraeth Cymru, gallwch ysgrifennu at y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus yn y cyfeiriad isod. Cysylltwch â:

The Commissioner for Public Appointments  
1 Horse Guards Road  
London  
SW1A 2HQ  
Ffôn: 0207 271 0849  
E-bost: [publicappointments@csc.gsi.gov.uk](mailto:publicappointments@csc.gsi.gov.uk)

Atodiad D

**Datganiad am Amrywiaeth**

Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai cyrff cyhoeddus gael aelodau bwrdd sy'n adlewyrchu cymdeithas yng Nghymru – pobl o bob cefndir – i'w helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud penderfyniadau gwell. Dyna pam mae Llywodraeth Cymru yn annog ystod eang ac amrywiol o unigolion i ymgeisio am benodiadau i gyrff cyhoeddus. Rydym yn croesawu yn arbennig geisiadau gan bob grŵp heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys menywod, pobl dan 30 oed, pobl dduon, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol.

